Adroddiad ar

Ysgol Uwchradd Castell Alun

Yr Hob
Sir y Fflint
LL12 9PY

Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2025

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant

yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Uwchradd Castell Alun

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Uwchradd Castell Alun |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir y Fflint |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Categori'r ysgol yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg | |
| Math o ysgol | Uwchradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 1284 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 1032 |
| Nifer yn y chweched dosbarth | 250 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector uwchradd yw 21.1%) | 11.7% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector uwchradd yw 11.2%) | 3.6% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 1.6% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.6% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/04/2021 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 25/09/2017 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 24/03/2025 |

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy'r ddolen isod: [fyysgolleol.llyw.cymru](fyysgolleol.llyw.cymru)

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Crynodeb

Mae Ysgol Castell Alun yn gymuned groesawgar a chynhwysol sy'n darparu cyfleoedd gwerthfawr i'w disgyblion ddatblygu i fod yn unigolion parchus a chydwybodol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn eithriadol o dda, maent yn dangos agweddau hynod gadarnhaol tuag at ddysgu, ac mae ganddynt berthnasoedd gwaith adeiladol â staff. Mae llawer o ddisgyblion yn gweithio'n ddiwyd mewn gwersi ac yn dangos lefelau uchel o falchder yn eu gwaith.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu, tra bod lleiafrif ohonynt yn gwneud cynnydd cryf. Yn y rhan fwyaf o wersi, mae gan athrawon wybodaeth bynciol dda ac maent yn cynllunio'n dda ar gyfer dysgu. Yn y gwersi gorau, mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel, maent yn holi disgyblion yn fedrus i'w hannog i feddwl yn ddwys ac ysbrydoli cariad am y pwnc. Mewn ychydig o wersi, nid yw disgyblion yn gwneud cynnydd addas. Yn y gwersi hyn, nid yw athrawon yn holi disgyblion yn ddigon da neu nid ydynt yn ystyried yn ddigon manwl sut i gefnogi disgyblion ar draws yr ystod gallu.

Mae disgyblion yn elwa ar gyfleoedd gwerthfawr i ddefnyddio a datblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, mae cydlyniant a chysondeb y cynllunio i helpu disgyblion i ddatblygu'r medrau hyn yn gynyddol yn faes i'w ddatblygu ymhellach.

Mae'r cwricwlwm yn eang, yn ddifyr ac yn diwallu anghenion disgyblion. Mae'n cynnwys darpariaeth werthfawr i gynorthwyo disgyblion i ddatblygu eu dealltwriaeth o iechyd a lles ac yn helpu disgyblion i ddatblygu eu medrau Cymraeg yn dda. Mae cyfleoedd allgyrsiol yn amrywiol a chynhwysol, ac mae cyfleoedd i arwain fel y llysgenhadon lles a'r "Cyngor Cymraeg" yn helpu disgyblion i ddylanwadu ar fywyd yr ysgol.

Mae'r ysgol yn rhoi pwyslais mawr ar les a datblygiad personol disgyblion. Ceir mesurau gwrthfwlio effeithiol, a chymorth rhagorol ar gyfer anghenion emosiynol, cymdeithasol ac academaidd disgyblion. Gwerthfawrogir barn disgyblion, ac maent yn elwa ar gyfleoedd helaeth i chwarae rôl weithredol mewn ffurfio cyfeiriad yr ysgol. Caiff y cyfnod pontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd ei reoli'n ofalus, gan sicrhau bod disgyblion yn teimlo'n hyderus a'u bod yn cael cefnogaeth o'r cychwyn.

Mae arweinwyr wedi sicrhau gwelliannau pwysig i waith yr ysgol. Er enghraifft, bu gwelliant da mewn cyfraddau presenoldeb y llynedd, gan gynnwys cyfraddau disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae trefniadau ar gyfer hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella yn gadarn a chydweithredol, gan arwain at ddealltwriaeth ar y cyd o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w gwella. Yn ychwanegol, mae llywodraethwyr yn darparu her fuddiol yn eu rôl fel ffrindiau beirniadol i'r ysgol.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella, sef:

A1. Gwella cysondeb yr addysgu trwy rannu'r arfer orau sy'n bodoli yn yr ysgol

A2. Cryfhau'r cysondeb a'r cydlyniant o ran sut caiff medrau disgyblion eu datblygu'n gynyddol ar draws pynciau

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

### Addysgu a dysgu

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion yn Ysgol Castell Alun agweddau cadarnhaol iawn tuag at ddysgu. Mae eu hymddygiad mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol yn eithriadol o dda. Dangosant lefelau uchel o gwrteisi tuag at aelodau eraill o gymuned yr ysgol ac ymwelwyr. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cyrraedd gwersi'n brydlon, yn bwrw ymlaen â'u gwaith yn gyflym ac yn gwrando'n astud ar eu hathrawon a'u cyfoedion. Mae llawer o ddisgyblion yn dal ati i ganolbwyntio'n effeithiol, yn gweithio'n ddiwyd trwy gydol eu gwersi ac yn dangos lefelau uchel o falchder yn eu gwaith. Mae parch ar y ddwy ochr a pherthnasoedd gwaith adeiladol rhwng staff a disgyblion yn nodweddion nodedig yn y rhan fwyaf o wersi.

Mae llawer o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), yn galw eu dysgu blaenorol i gof yn dda ac yn gwneud cynnydd cadarn wrth ddatblygu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau. Yn y rhan fwyaf o wersi, mae athrawon yn rhoi cyfarwyddiadau ac esboniadau clir. Mae ganddynt wybodaeth bynciol gref ac maent yn darparu adnoddau pwrpasol ar gyfer disgyblion i gefnogi eu dysgu. Mewn llawer o wersi, mae athrawon yn atgyfnerthu terminoleg sy'n benodol i bwnc yn effeithiol i helpu disgyblion i ddatblygu eu geirfa. Mae gan yr athrawon hyn ddisgwyliadau addas o ddisgyblion ac yn cynllunio tasgau sy'n adeiladu'n gynyddol ar ei gilydd. Maent yn holi disgyblion yn briodol i wirio'u dealltwriaeth ac yn mynd o gwmpas yr ystafell ddosbarth yn effeithiol i gefnogi disgyblion a sicrhau eu bod yn cwblhau tasgau.

Mewn lleiafrif o wersi, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cryf ac yn llwyddo i gymhwyso'u dysgu blaenorol yn annibynnol i gyd-destunau heriol ac anghyfarwydd. Yn y gwersi hyn, mae athrawon:

- yn defnyddio ac yn hyrwyddo geirfa uchelgeisiol i annog disgyblion i fynegi eu hunain yn goeth
- yn holi disgyblion yn fedrus i brocio a dyfnhau eu dealltwriaeth
- yn ysbrydoli disgyblion â'u brwdfrydedd a'u hangerdd am y pwnc
- yn meddu ar ddisgwyliadau uchel ac yn cynllunio'n effeithiol i hyrwyddo cynnydd cryf
- yn oedi'r wers lle mae angen i fynd i'r afael â chamdybiaethau a rhoi adborth uniongyrchol ac effeithiol i ddisgyblion

Mewn ychydig o wersi, nid yw disgyblion yn gwneud cynnydd addas. Yn yr achosion hyn, nid oes gan athrawon ddisgwyliadau digon uchel o'r hyn y gall disgyblion ei gyflawni. Nid ydynt bob amser yn cynllunio'n ddigon da i gefnogi disgyblion o bob gallu ac maent yn neilltuo gormod o amser i dasgau diymdrech. Yn y gwersi hyn, mae diffyg eglurder yng nghyfarwyddiadau ac esboniadau athrawon. Yn aml, maent yn defnyddio ystod gyfyngedig o gwestiynau nad ydynt yn helpu disgyblion i esbonio'u meddwl.

Mae effaith adborth ar gynnydd disgyblion yn amrywiol. Yn yr enghreifftiau gorau, caiff disgyblion adborth llafar ac ysgrifenedig ar ansawdd eu gwaith. Mae hwn yn aml yn benodol ac effeithiol i gynorthwyo disgyblion i wneud mwy o gynnydd. Mewn ychydig o feysydd pwnc, mae athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn defnyddio sesiynau 'myfyrio a gwella' yn annibynnol ac yn effeithiol i wneud gwelliannau sylweddol i'w gwaith. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o achosion, ni chaiff camdybiaethau na chamgymeriadau eu nodi'n ddigon da i helpu disgyblion i wneud gwelliannau. Yn yr achosion hyn, nid yw disgwyliadau athrawon o sut mae disgyblion yn ymateb i adborth bob amser yn glir.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion y chweched dosbarth yn dangos diddordeb a brwdfrydedd am y pynciau maent yn eu hastudio. Mae'r disgyblion hyn yn ymgysylltu'n gadarnhaol mewn trafodaethau dosbarth ac yn ymateb yn aeddfed i gwestiynau eu hathrawon, gan esbonio'u meddwl a'u rhesymu yn dda. Mae llawer o ddisgyblion yn dangos lefelau cryf o annibyniaeth yn eu dysgu, ac ychydig ohonynt yn gofyn cwestiynau tra ystyriol i'w hathro i ddyfnhau eu dealltwriaeth eu hunain.

Mae athrawon yn darparu ystod eang o gyfleoedd addas i ddisgyblion ddatblygu a chymhwyso'u medrau llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm. Mae arweinwyr yn dadansoddi data profion cenedlaethol yn fuddiol i nodi gwendidau ym medrau disgyblion. Maent yn darparu cymorth buddiol trwy ymyriadau targedig ar gyfer disgyblion ac yn olrhain eu cynnydd yn agos. Maent yn darparu arweiniad a dysgu proffesiynol gwerthfawr i staff. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yn gwerthuso'n agos effaith y gwaith hwn, ac o ganlyniad, nid yw cydlyniant y ddarpariaeth i ddatblygu medrau disgyblion yn gynyddol yn gyson ar draws pynciau.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n barchus ar eu hathrawon a'u cyfoedion. Maent yn siarad yn glir pan wahoddir nhw i wneud hynny, ac yn cyfrannu atebion sydd â manylder addas. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o wersi, mae diffyg cyfle i drafod ar y cyd a chyfrannu'n estynedig. Mae mwyafrif o ddisgyblion yn defnyddio geirfa sy'n benodol i bwnc yn hyderus ac ychydig o ddisgyblion yn defnyddio geirfa uchelgeisiol a chymhleth yn effeithiol gan fynegi eu hunain yn arbennig o dda.

Mewn llawer o achosion, mae disgyblion yn cymharu ac yn cyferbynnu gwybodaeth yn effeithiol ac yn tynnu sylw at elfennau tebyg a gwahanol mewn themâu a safbwyntiau wrth gwblhau gweithgareddau darllen. Er enghraifft, mewn gwersi hanes, maent yn ystyried y gwahanol resymau y gwnaeth dynion listio yn y Rhyfel Byd Cyntaf, a ph’un ai damwain drasig ai peidio oedd marwolaeth y swffragét Emily Davison. Ar draws y cwricwlwm, mae lleiafrif o ddisgyblion yn defnyddio ymresymu a dod i gasgliad yn effeithiol i lunio casgliadau o’r hyn y maent wedi’i ddarllen. Mae’r ysgol yn rhoi pwyslais gwerthfawr ar bwysigrwydd darllen trwy ddarparu gweithgareddau fel sesiynau darllen er pleser yn ystod adegau cofrestru.

Mae llawer o ddisgyblion yn trefnu eu hysgrifennu’n gydlynus, gyda chywirdeb ac eglurder addas, ar gyfer ystod briodol o ddibenion a chynulleidfaoedd. Mae lleiafrif o ddisgyblion yn ysgrifennu â soffistigeiddrwydd ac aeddfedrwydd, gan ddangos amgyffrediad cryf o’r deunydd pwnc a defnyddio strwythurau brawddeg cymhleth. Fodd bynnag, mae ychydig o ddisgyblion yn gwneud camgymeriadau sillafu a gramadegol rheolaidd yn eu gwaith.

Mae llawer o ddisgyblion yn meddu ar fedrau rhifedd cadarn ac ychydig ohonynt yn gwneud cynnydd cryf. Mae gan lawer ohonynt afael addas o reolau sylfaenol rhif ac maent yn eu cymhwyso’n briodol i wahanol gyd-destunau. Mae gan fwyafrif ohonynt ddealltwriaeth addas o algebra, er enghraifft aildrefnu fformiwlâu a datrys hafaliadau yn llwyddiannus mewn gwyddoniaeth. Mae llawer o ddisgyblion yn cymhwyso’u gwybodaeth am siâp a gofod yn dda, er enghraifft wrth gyfrifo perimedrau ac arwynebeddau siapiau rheolaidd a mwy cymhleth. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o debygolrwydd ac yn cynrychioli data gan ddefnyddio ystod o siartiau a graffiau yn gywir. Er enghraifft, mae disgyblion yn plotio graffiau hinsawdd yn annibynnol ac yn dehongli pyramidiau poblogaeth yn effeithiol. Yn yr achosion gorau, mae disgyblion yn llunio casgliadau cywir o amrywiaeth o ddata a gwybodaeth. Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion, mae disgyblion yn gwneud camgymeriadau wrth blotio graffiau ac yn tynnu llinellau ffit gorau nad ydynt bob amser yn cael eu cywiro gan athrawon.

Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio dyfeisiau digidol i ddylunio ffeithluniau a chreu cyflwyniadau a fideos yn llwyddiannus. Maent yn cydweithio’n dda ar brosiectau digidol ac yn defnyddio technegau cyfrifiadurol yn addas i archwilio gwybodaeth o gronfeydd data a ffynonellau.

## Ciplun 1 – Hyrwyddo Dwyieithrwydd

Mae'r ysgol wedi blaenoriaethu ei strategaeth i ehangu a hyrwyddo dwyieithrwydd yn effeithiol. Caiff disgyblion gyfleoedd gwerthfawr i glywed staff a chyfoedion yn defnyddio'r Gymraeg y tu mewn a'r tu allan i ystafelloedd dosbarth, er enghraifft mewn gwasanaethau ysgol gyfan. Yn ychwanegol, mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth o dreftadaeth a diwylliant Cymru. Er enghraifft, mewn crefydd, gwerthoedd a moeseg, maent yn astudio dylanwad diwygwyr o Gymru, fel Robert Owen a Nye Bevan.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol tuag at yr iaith ac yn dechrau datblygu hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg ym mywyd yr ysgol. Mae'r 'Cyngor Cymraeg', sef grŵp o ddisgyblion sy'n arwain ar ddwyieithrwydd, yn trefnu gweithgareddau ar gyfer disgyblion yn rheolaidd. Mae disgyblion hŷn yn mynd ati i gymryd rhan mewn mentrau fel 'Clwb Clebran' i roi hwb i'w hyder wrth siarad Cymraeg. Anogir dwyieithrwydd hefyd trwy'r polisi ymddygiad cadarnhaol, lle mae disgyblion yn ennill pwyntiau canmoliaeth am siarad Cymraeg.

Mewn gwersi Cymraeg, mae bron pob un o'r disgyblion yn mynd ati i gymryd rhan mewn gemau iaith, gan ehangu eu medrau trwy weithgareddau rhyngweithiol. Mae llawer ohonynt yn galw i gof a defnyddio geirfa yn effeithiol. Maent yn llunio brawddegau syml yn hyderus, wedi'i gefnogi gan ymarferion drilio strwythuredig athrawon. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ynganu geiriau ac ymadroddion yn dda, tra bod ychydig ohonynt yn defnyddio geirfa fwy datblygedig i drafod testunau cymhleth. Nid oes gan ychydig o ddisgyblion hyder wrth siarad Cymraeg.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ystod addas o eirfa Gymraeg sy'n eu helpu i nodi manylion allweddol mewn testunau darllen byr. Mae mwyafrif ohonynt yn anodi nodweddion arddull yn effeithiol mewn amrywiaeth o destunau yn dda. Mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu brawddegau a darnau byr yn gywir a gallant gyfieithu brawddegau yn gyflym ac yn gywir. Mae ychydig o ddisgyblion yn defnyddio idiomau, berfau ac amserau yn effeithiol ac yn cymhwyso treigladau yn gywir i gyfoethogi eu gwaith ysgrifenedig. Fodd bynnag, o bryd i'w gilydd, mae disgyblion yn dibynnu'n ormodol ar batrymau a sgaffaldiau strwythur ar gyfer tasgau llafar ac ysgrifenedig.

Mae uwch arweinwyr wedi gweithio'n bwrpasol ochr yn ochr â'u cydweithwyr yn y clwstwr cynradd i ddatblygu gweledigaeth uchelgeisiol ar gyfer eu Cwricwlwm i Gymru. Mae athrawon yn sicrhau bod pwyslais clir ar wybodaeth a medrau pwnc, ochr yn ochr ag ymagwedd ddifyr at ddysgu cyd-destunol.

## Ciplun 2 – Cefnogi pontio trwy gynllunio'r cwricwlwm iechyd a lles yn effeithiol

Mae uwch arweinwyr yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr o ysgolion cynradd partner i sicrhau parhad disgwyliadau'r cwricwlwm yn ogystal â gofal bugeiliol ar gyfer disgyblion pan fyddant yn dechrau yn yr ysgol uwchradd. Mae mabwysiadu rhaglen gyffredin o addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) ar draws yr ysgolion yn gryfder penodol. Mae'r rhaglen hon wedi'i gwreiddio yn y cwricwlwm iechyd a lles, yn atgyfnerthu gwerthoedd parch, penderfyniad a gonestrwydd. Mae'r model cwricwlwm di-dor hwn yn cefnogi lles disgyblion yn llwyddiannus, yn ogystal â meithrin eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol, wedi'i gyfoethogi gan wasanaethau, sesiynau wedi'u harwain gan diwtoriaid a phartneriaethau allanol.

Mae'r ysgol wedi datblygu cwricwlwm amrywiol a difyr yn ystyriol ar gyfer disgyblion yng nghyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth, gan gynnwys ar gyfer y rhai ag ADY. Ceir darpariaeth alwedigaethol dra ystyriol, wedi'i hategu gan weithio agos â choleg lleol. Mae'r ysgol yn addasu ei chwricwlwm chweched dosbarth yn greadigol, gan sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gallu dilyn y cyfuniadau o gyrsiau y maent yn eu ffafrio. Mae ei system arweiniad drylwyr yn cefnogi gwneud penderfyniadau gwybodus trwy'r broses opsiynau ym Mlynyddoedd 9 ac 11, gan baratoi disgyblion yn effeithiol ar gyfer gyrfaoedd yn y dyfodol. Mae cysylltiadau cryf â busnesau a diwydiannau lleol yn cyfoethogi dysgu trwy ddarparu cysylltiadau gwerthfawr â'r byd go iawn.

Mae'r ysgol yn darparu ystod helaeth o weithgareddau allgyrsiol poblogaidd, gan gynnwys chwaraeon, cerddoriaeth, drama a chlybiau eraill fel clwb garddio a grŵp Pobl Pride. Mae arweinwyr yn sicrhau cynwysoldeb, gan alluogi pob un o'r disgyblion i gymryd rhan, yn cynnwys y rhai o aelwydydd incwm isel. Mae'r ymrwymiad hwn i degwch a chyfoethogi yn gryfder arwyddocaol.

## Lles, gofal, cymorth ac arweiniad

Mae Ysgol Castell Alun yn gymuned ofalgar a chynhwysol sy'n rhoi lles disgyblion yn ganolog i bopeth a wna. Mae gwerthoedd craidd yr ysgol, sef parch, penderfyniad a gonestrwydd, yn sail i'w hethos, ac yn ei gefnogi. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwrtais, yn barchus ac yn aeddfed, ac adlewyrchir eu hagweddau cadarnhaol mewn ymddygiad da mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol. Mae'r tîm bugeiliol angerddol ac ymroddgar yn cyflwyno rhaglen gynhwysfawr a threfnus o gymorth teilwredig i ddiwallu anghenion disgyblion. Mae disgyblion sy'n cael y cymorth hwn yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u derbyn. Mae ymyriadau sy'n ystyriol o drawma a darpariaeth allymestyn dargedig yn rhoi cymorth effeithiol i'r disgyblion bregus a'r rhai sydd mewn perygl o gael eu gwahardd. Mae'r ymyriadau hyn wedi arwain at ddeilliannau cadarnhaol, er enghraifft presenoldeb, ymgysylltu a chyrhaeddiad gwell.

Mae datblygu arweinyddiaeth disgyblion yn gryfder nodedig yn yr ysgol. Mae cyfleoedd helaeth i ddisgyblion ddatblygu eu medrau arweinyddiaeth a chymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau yn cyfrannu'n nodedig at eu datblygiad personol. Mae'r rhain yn cynnwys y 'Cyngor Cymraeg' a llysgenhadon lles. Mae arweinwyr yn casglu barn disgyblion yn rheolaidd trwy'r Cyngor Ysgol a grwpiau eraill sy'n cynrychioli disgyblion. O ganlyniad, mae disgyblion yn llywio gwaith yr ysgol ac yn dylanwadu arno, er enghraifft trwy effeithio ar gyflwyno cit addysg gorfforol rhywedd-niwtral. Mae disgyblion y chweched dosbarth yn gwneud cyfraniad pwysig at fywyd yr ysgol. Maent yn arwain y pwyllgor elusennau yn annibynnol ac yn gyfrifol am fentora disgyblion iau.

Mae'r ysgol yn gweithredu strategaeth gwrthfwlio drylwyr, sy'n canolbwyntio ar y disgybl, a gefnogir gan system fugeiliol gref. Mae'n canolbwyntio'n dda ar helpu disgyblion i ddeall sut mae bwlio'n effeithio ar bobl eraill. Mae systemau adrodd clir yn ysgogi ymatebion staff ac mae cymorth priodol i ddisgyblion yn cyfrannu at ddiwylliant diogel a pharchus. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel pan fyddant yn yr ysgol.

Mae gan yr ysgol raglen bontio gydlynus a strwythuredig sy'n cael ei hategu gan gydweithio cryf ag ysgolion cynradd partner. Mae cyfarfodydd clwstwr bob tymor, ethos clwstwr ar y cyd a mentrau ar y cyd yn cefnogi lles a dilyniant disgyblion yn llwyddiannus. Mae arweinwyr yn defnyddio platfform digidol yn effeithiol i gasglu a rhannu gwybodaeth ddefnyddiol am anghenion lles disgyblion.

Mae arweinwyr yn dangos ymagwedd gref ac ymroddgar at gynorthwyo disgyblion ag ADY. Caiff disgyblion gymorth addas a theilwredig gan dîm o staff gofalgar a meithringar. Mae'r tîm ADY yn adolygu'r ddarpariaeth hon yn rheolaidd ac yn ei haddasu yn unol ag anghenion unigol y disgyblion. Mae'r defnydd cyson o ddull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn wrth adolygu Cynlluniau Datblygu Unigol (CDUau) a phroffiliau un dudalen yn sicrhau bod anghenion disgyblion yn cael eu nodi'n glir a'u cefnogi'n briodol. Mae staff yn olrhain ac yn monitro cynnydd disgyblion ag ADY yn briodol. Maent yn adnabod eu disgyblion yn dda ac yn defnyddio'r wybodaeth hon yn bwrpasol i sicrhau bod darpariaeth ychwanegol yn cael ei theilwra i ddiwallu anghenion y disgyblion hyn.

Mae'r ddarpariaeth anogaeth ym Mlwyddyn 7 yn hynod effeithiol o ran helpu disgyblion i bontio'n esmwyth i'r ysgol uwchradd, gyda ffocws ar feithrin medrau hanfodol. Mae disgyblion ar draws yr ysgol yn elwa ar ymyriadau strwythuredig sy'n cael eu monitro'n agos. Mae'r rhain yn cynnwys ymyriadau llythrennedd, rhifedd a lles, a chânt eu cefnogi gan ddefnydd arloesol o dechnoleg gynorthwyol. Yn gyffredinol, caiff staff eu cynorthwyo'n dda trwy hyfforddiant priodol ynghylch ADY, ac mae deunyddiau cymorth ar waith. Fodd bynnag, nid yw defnydd o'r deunyddiau hyn i lywio cynllunio gwersi a gwahaniaethu effeithiol yn cael ei ymgorffori'n llawn.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo diwylliant yn effeithiol lle mae presenoldeb da yn bwysig. Mae arweinwyr yn monitro ac yn dadansoddi presenoldeb disgyblion yn ofalus ac yn cydweithio'n fewnol, a gyda theuluoedd ac asiantaethau allanol, i wella presenoldeb disgyblion unigol. Yn 2023-2024, bu gwelliant mewn presenoldeb ac roedd uwchlaw presenoldeb ysgolion tebyg, er ei fod yn parhau i fod islaw lefelau cyn y pandemig. Bu gwelliant da ym mhresenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn 2023-2024, er ei fod yn parhau ychydig islaw'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion tebyg. Mae cyfraddau absenoldeb parhaus wedi gostwng dros y ddwy flynedd. Yn ychwanegol, mae data mewnol ysgolion nas gwiriwyd yn awgrymu bod presenoldeb yn parhau i wella yn 2024-2025.

Rhoddir blaenoriaeth glir i ddiogelu yn yr ysgol, ac mae arweinwyr yn cydweithio i feithrin diwylliant diogelu cryf. Mae gweithdrefnau i amddiffyn disgyblion wedi hen ennill eu plwyf, yn cael eu cymhwyso'n gyson, ac yn effeithiol o ran sicrhau diogelwch disgyblion. Mae'r ysgol yn dangos ymagwedd brydlon a rhagweithiol wrth ymateb i bryderon, gydag ymyriadau amserol ac atgyfeiriadau priodol at asiantaethau allanol, lle mae angen. Mae staff yn wybodus ac yn cael eu hyfforddi'n rheolaidd mewn protocolau diogelu, sy'n sicrhau dealltwriaeth ar y cyd ac arfer gyson ar draws yr ysgol. Mae defnyddio systemau digidol diogel yn cefnogi trefn effeithiol o ran cyfathrebu, cadw cofnodion a monitro materion bugeiliol a diogelu. Mae'r system hon hefyd yn cryfhau parhad mewn arferion diogelu ar draws y clwstwr, gan ei bod yn cael ei defnyddio gan ysgolion cynradd partner.

## Arwain a gwella

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth ddynamig, angerddol a sensitif. Mae wedi arwain yr ysgol yn ofalus trwy gyfnod o newid sylweddol mewn arweinyddiaeth. Mae ei weledigaeth ar gyfer 'meithrin dyfodol llwyddiannus' a ategir gan werthoedd yr ysgol, sef 'parch, penderfyniad a gonestrwydd', yn cael ei deall yn glir gan staff. Mae uwch arweinwyr yn ystyried lles staff yn ofalus. O ganlyniad, mae morâl staff yn uchel, ac maent yn falch o fod yn rhan o gymuned Ysgol Castell Alun.

Caiff y pennaeth gymorth effeithiol gan ei uwch dîm, sydd â rolau a chyfrifoldebau diffiniedig a theg. Yn gyffredinol, mae arweinwyr yn rhoi cydbwysedd buddiol o gymorth a her i staff. Mae trefniadau rheolaeth llinell yn canolbwyntio'n briodol ar les a chynnydd disgyblion, yn ogystal ag ansawdd yr addysgu.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o ystod helaeth o ddata i fonitro cynnydd a lles disgyblion, gan roi ymyriadau priodol ar waith, lle mae angen.

Mae'r ysgol wedi datblygu proses sicrhau ansawdd strwythuredig ac a ddeellir yn glir, gan alluogi staff i werthuso darpariaeth gan ddefnyddio ystod eang o dystiolaeth. Mewn llawer o achosion, mae hyn yn helpu arweinwyr i ennill dealltwriaeth drylwyr o'r cryfderau a'r agweddau i'w gwella yn eu meysydd cyfrifoldeb. Yn ychwanegol, mae natur gydweithredol llawer o'r gweithgareddau hyn yn helpu datblygu dealltwriaeth ar y cyd o gynnydd yr ysgol tuag at ei blaenoriaethau gwella. Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion, mae'r gweithgareddau hyn yn canolbwyntio gormod ar gwblhau camau gweithredu yn hytrach na'u heffaith, gan leihau gallu arweinwyr i gynllunio'n fanwl ar gyfer gwella.

Mae staff yn elwa ar ystod eang o gyfleoedd dysgu proffesiynol, gan gynnwys rhannu arfer dda. Mae'r gweithgareddau hyn yn canolbwyntio'n agos ar flaenoriaethau'r ysgol a blaenoriaethau cenedlaethol. Caiff yr ymarferwyr mwyaf effeithiol eu defnyddio'n fuddiol i gyflwyno dysgu proffesiynol i'w cydweithwyr ar ddulliau ystafell ddosbarth effeithiol.

Mewn llawer o achosion, mae arweinwyr canol yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o'u rôl. Mae ychydig ohonynt yn arweinwyr hynod effeithiol sydd â dealltwriaeth fanwl a thra chywir o'u timau, ac yn sicrhau addysgu a chynnydd cryf yn gyson. Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion, nid yw arweinwyr canol yn dwyn eu timau i gyfrif yn ddigon cadarn.

Mae'r ysgol wedi llwyddo i fynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol, gan gynnwys gwella presenoldeb a hyrwyddo'r Gymraeg. Mae wedi datblygu ystod eang o strategaethau i leihau effeithiau tlodi ar gyrhaeddiad addysgol. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar ansawdd addysgu, er enghraifft. Mae arweinwyr wedi llwyddo i sicrhau diwylliant diogelu cryf.

Mae llywodraethwyr yn gefnogwyr ymroddgar a gwybodus i'r ysgol, sy'n chwarae rôl lawn mewn gosod cyfeiriad strategol yr ysgol, gwerthuso'i gwaith a rhoi her fuddiol i arweinwyr. Mae llywodraethwyr, y rheolwr busnes a'r pennaeth yn rheoli cyllideb yr ysgol a gwariant cyllid grant yn ddiwyd. Maent yn monitro effaith y gwariant yn agos, gan gynnwys y grant datblygu disgyblion, i sicrhau ei fod yn canolbwyntio ar flaenoriaethau'r ysgol a blaenoriaethau cenedlaethol.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli'r safle yn peri pryder, a thynnwyd sylw'r awdurdod lleol at hyn.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, yn cynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o’r holiadur i rieni a’r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a’r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i’w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a’i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â’r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny’n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a’r pwyllgor eco, lle bo’n briodol
- yn ymweld â sampl eang o wersi, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â’r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu’r disgyblion, lle bo’n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo’n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso’r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella’r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae’r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau’r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a’r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi’r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau’r arolygiad ochr yn ochr â’r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â’r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae’r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 30/05/2025